

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# Y Clinig Lleferydd Arbenigol

## I bwy mae'r Clinig?

**Plant 3+ oed ac oedolion* sydd ag Anhwylderau Sain Lleferydd cymhleth a/neu sydd ddim wedi ymateb i ymyrraeth blaenorol. Gweler ein meini prawf atgyfeirio am ragor o fanylion.**

* Sylwer na allwn dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer Anhwylderau Lleferydd Echddygol Caffaeledig mewn oedolion e.e. yn dilyn strôc neu gyflyrau niwrolegol cynyddol.

### Sut i atgyfeirio

- Gwirio bod yr unigolyn yn bodloni ein **meini prawf atgyfeirio**
- Cwblhewch y ffurflen atgyfeirio a'r dogfennau ategol a geir **yma**
- Rhaid i atgyfeiriadau gael eu cwblhau gan neu ar y cyd â Therapydd Iaith a Lleferydd
- E-bostiwch y ffurflen atgyfeirio wedi'i chwblhau a'r dogfennau ategol i **thespecialistspeechclinic @cardiffmet.ac.uk**

### Beth mae'r Clinig yn ei Ddarparu?

- Ail farn Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol Uwch o ran diagnosis gwahaniaethol ac argymhellion therapi. Gall yr asesiad gynnwys defnydd o offer asesu fel Delweddu Uwchsain fel y bo'n briodol.
- Adroddiad a Chynllun Rheolaeth Therapi manwl, yn cynnwys argymhellion ar sail tystiolaeth yn unol â chanllawiau'r Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd, sy'n cyd-fynd â diagnosis gwahaniaethol yr unigolyn.
- Canllawiau a hyfforddiant (fel y bo'n briodol) i Therapyddion Iaith a Lleferydd Lleol i'w cefnogi i gyflawni'r Cynllun Rheolaeth Therapi.
- Cyfle i roi caniatâd i ddata asesu gael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil yn ymwneud ag unigolion ag Anhwylderau Synau Lleferydd cymhleth a/neu barhaus.

### Cwestiynau Cyffredinol

**Ble mae'r clinig wedi'i leoli?**
Mae'r clinig wedi'i leoli ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a derbynnir atgyfeiriadau o bob rhan o'r DU a Gweriniaeth Iwerddon cyn belled â'ch bod yn gallu teithio i'r clinig.

**A oes cost i gael eich gweld yn y clinig?**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gost i gael eich gweld yn y clinig.

**Ydy'r clinig yn cynnig sesiynau therapi?**
Ar hyn o bryd mae'r clinig yn cynnig asesiad a chyngor manwl yn unig, fodd bynnag gellir ystyried sesiynau therapi fesul achos unigol.

## Pa ddiagnosis ellir ei adnabod yn y Clinig?

- Anhwylder Cynanu
- Oediad Ffonolegol
- Anhwylder Ffonolegol Cyson
- Anhwylder Ffonolegol Anghyson
- Anawsterau Ymwybyddiaeth Ffonolegol
- Anawsterau Prosesu Lleferydd
- Apracsia Lleferydd mewn Plentyndod
- Dysarthria

## Pa ddulliau therapi y mae'r Clinig yn argymell?

Mae'r clinig yn gwneud argymhellion yn unol â Chanllawiau Clinigol Anhwylderau Synau Lleferydd Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd. Gall hyn gynnwys:

- Therapi Cynanu
- Therapi Ysgogi
- Parau Minimol
- Parau Macsimal
- Gwrthwynebiadau Lluosog
- Set Wag
- Clystyrau gyda 2/3 Elfen
- Therapi Geirfa Craidd
- Ymyrraeth Ymwybyddiaeth Ffonolegol
- Ciwio Dynamig, Amserol a Chyffyrddol
- Rhaglen Dyspracsia Nuffield
- Triniaeth Trawsnewid Rhyngsillafol Cyflym
- Bioadborth Uwchsain
- Dull Is-systemau Lleferydd

Nid yw'r clinig yn argymell dulliau therapi lle nad oes sail dystiolaeth neu lle mae'r sail dystiolaeth yn gyfyngedig.





## Cysylltwch

✉ thespecialistspeechclinic
@cardiffmet.ac.uk

**Y Clinig Lleferydd Arbenigol**
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Campws Llandaf
Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YB

